| Dyddiad | Datgan Diddordeb | Presennol | Penderfyniadau a gytunwyd arnynt |
|---|---|---|---|
| 2/5/23 | Dim | **Presennol: Y Cynghorwyr** Euros Roberts(Cadeirydd), Llinos Edwards (is-Gadeirydd), Huw Antur, , Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Dewi Wyn Jones, Heledd Jones, Rhodri Jones, Huw P Roberts<br><br>**Swyddogion yn bresennol:** Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)<br><br>**Ymddiheuriadau** Beryl Hughes Griffiths, Alwyn Roberts, ac Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd) | **Materion Ariannol:** Derbyniadau: daeth taliad cyntaf y Praesept i law. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis yn cynnwys<br>Toiledau – Bocsys pres £67.98<br>Nwyddau glanhau £36.42<br>Cytundebau: Cynnal a chadw mynwentydd, glanhau, cyflog<br><br>Cais am gyfraniad at Ystafell aml-synhwyrau yn y Ganolfan Deulu: cytunwyd i gyfrannu £200.<br>Cais hwyr am gyfraniad at Teulu Gwalia: cytunwyd i gyfrannu fel yn y gorffennol, sef £50.<br><br>**Cynllunio:** Cymeradwywyd cais **NP5/70/71E sef** gwaith peirianyddol ar gyfer adeiladu ysgol farchogaeth newydd, ac estyniad i adeilad amaethyddol presennol i gynnwys eitemau cysylltiedig - Felindre, Llanuwchllyn. |